# CYLCHLYTHYR RHIENI/GOFALWYR
Gwanwyn 2026

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol**

## Croeso

Croeso i rifyn Gwanwyn 2026 o'n Cylchlythyr Rhieni/Gofalwyr, sy'n ymroddedig i gefnogi rhieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn y rhifyn hwn, fe welwch ganllawiau defnyddiol gan gynghorwyr Gyrfa Cymru, awgrymiadau ymarferol ar gyfer cynllunio'r cyfnod pontio, yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau diweddar, a gwybodaeth am adnoddau a gwasanaethau a gynlluniwyd i'ch helpu chi a'ch plentyn i lywio eu camau nesaf. Diolch i chi am eich ymgysylltiad a'ch adborth parhaus, sy'n parhau i lunio a gwella'r gefnogaeth a ddarparwn. Gobeithiwn y byddwch yn gweld bod y cylchlythyr hwn yn addysgiadol ac yn galonogol.



# Eich cefnogi chi a'ch plentyn

Mae Gyrfa Cymru yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn i wneud y penderfyniad cywir am ei ddyfodol. Gall ein cynghorwyr gyrfa:

- roi gwybodaeth, cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd ddiduedd.
- helpu eich plentyn i ddeall ei gryfderau a chyrraedd ei botensial.
- rannu gwybodaeth am opsiynau amrywiol, gan gynnwys gwaith a dysgu pellach.
- helpu'ch plentyn i osod nod tymor byr a hirdymor sy'n gysylltiedig â'i opsiynau yn y dyfodol.
- gynnig cefnogaeth i'ch plentyn os bydd yn wynebu anawsterau a heriau.

# Llais rhieni



Diolch i'r holl rieni a gofalwyr a gymerodd yr amser i gwblhau ein holiadur i rieni. Mae eich adborth yn amhrisiadwy a bydd yn helpu i lunio sut rydym yn datblygu a gwella ein gwasanaethau yn y dyfodol. Dyma gipolwg ar yr hyn a ddywedoch chi wrthym ni:

→ **Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn rhieni a gofalwyr dysgwyr ym mlynyddoedd 7–11.**

→ **Mae'r gwasanaethau sydd fwyaf diddorol i chi yn cynnwys:**

- y cylchlythyr rhieni/gofalwyr tymhorol
- cymorth i gefnogi eich plentyn i wneud penderfyniadau gyrfa
- cymorth i ddeall sut mae gwahanol bynciau'n berthnasol i wahanol swyddi
- deall mwy am swyddi yn y dyfodol

→ **Mynegodd pob rhiant a gofalwr ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori pellach.**

→ **Roedd yr adborth ar y gwasanaethau a dderbyniwyd gan Gyrfa Cymru yn gadarnhaol dros ben.**

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio eich adborth i sicrhau bod ein gwasanaethau yn wirioneddol yn diwallu anghenion pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae eich barn yn bwysig i ni, ac rydym bob amser yn croesawu cyfraniadau pellach. Mae'r arolwg yn parhau ar agor, felly os nad ydych chi wedi cymryd rhan eto - neu os oes gennych chi fwy i'w rannu - gallwch ddod o hyd iddo yma.

# Awgrymiadau gwych i rieni

**Os yw eich plentyn yn gadael yr ysgol eleni ac yn paratoi ar gyfer coleg, gwaith neu hyfforddiant, rydw i wedi llunio rhywfaint o gyngor ymarferol i helpu i wneud y cyfnod pontio mor llyfn â phosibl.**

## Cludiant

- Meddyliwch ymlaen llaw am sut y bydd eich plentyn yn cyrraedd pen y daith newydd, boed hynny'n goleg, gwaith neu leoliad hyfforddi.
- Gwiriwch amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus cyn y diwrnod cyntaf, fel nad oes unrhyw beth annisgwyl.
- Os bydd eich plentyn yn teithio ar ei ben ei hun, rwy'n argymell gwneud taith brawf gyda'ch gilydd, fel ei fod yn teimlo'n hyderus ar y diwrnod cyntaf.

## Adolygiadau

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynychu adolygiad Y Cynllun Datblygu Unigol ym mlwyddyn olaf eich plentyn – dyma'r amser delfrydol i ofyn cwestiynau.
- Mae'n werthfawr rhannu beth sy'n mynd yn dda a thynnu sylw at unrhyw feysydd y gellid eu gwella.

## Opsiynau

- Mynychwch ddigwyddiadau agored pryd bynnag y bo modd, gan gasglu cymaint o wybodaeth ag y gallwch. Cymharwch yr holl opsiynau sydd ar gael i wneud dewis gwybodus.
- Cofiwch wneud cais yn gynnar – mae cyrsiau coleg yn llenwi'n gyflym. Mae llawer o golegau hefyd yn cynnig diwrnodau pontio tra bod eich plentyn yn dal yn yr ysgol, a all ei helpu i ymgartrefu.
- Rhowch ddigon o amser i chi'ch hun i ymchwilio i'r hyn sydd ar gael, fel nad ydych chi'n teimlo dan bwysau.
- Os yw eich plentyn yn mynd i'r coleg, gwnewch yn siŵr bod gan y coleg gopi o'i Gynllun Datblygu Unigol.



## Claire Brunt

**Teitl swydd:**
Cynghorydd Gyrfa

**Ysgol:**
Ysgol y Deri, Penarth

## Cymorth

- Gwnewch yn siŵr bod pawb sy'n gweithio gyda'ch plentyn yn gwybod beth yw'r camau nesaf.
- Ewch i'n gwefan am gyngor ac arweiniad, beth bynnag yw oedran eich plentyn.
- Os oes gennych gwestiynau am wasanaethau i oedolion, siaradwch â'r gwasanaethau cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth
- Cofiwch, mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yma i helpu, ynghyd â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr pontio colegau. Peidiwch ag oedi cyn gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Gobeithio y bydd fy awgrymiadau gwych yn rhoi canllawiau ymarferol i rieni a gofalwyr tra bod eu plant yn paratoi i adael yr ysgol a symud ymlaen i'r coleg, gwaith neu hyfforddiant. Rwy'n eich annog i gynllunio trefniadau cludiant, mynychu adolygiadau, ac archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael yn gynnar. Bydd rhannu gwybodaeth, cefnogi cyfnod pontio eich plentyn, a chael cyngor gan weithwyr proffesiynol a gwasanaethau perthnasol yn helpu i wneud y newid mor llyfn â phosib. Cofiwch, nid ydych chi ar eich pen eich hun – mae cymorth ar gael gan gynghorwyr gyrfa, colegau a gwasanaethau cymdeithasol. Pob lwc.

# Cymorth i rieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol



## Fy Nyfodol ↗

Fy Nyfodol yw ein hadran hawdd ei deall o'r wefan, sy'n addas ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.
Mae gennym adran i rieni a gofalwyr sy'n esbonio sut y gall Gyrfa Cymru eich cefnogi gyda chamau nesaf eich plentyn.



## Mae fy mhlentyn yn yr ysgol ↗

Dysgwch sut allwch chi gefnogi eich plentyn gyda'i gamau nesaf a sut mae Gyrfa Cymru yma i helpu.



## Mae fy mhlentyn yn y coleg ↗

Archwiliwch yr opsiynau sydd ar gael i'ch plentyn a sut y gall Gyrfa Cymru roi cymorth.



## Mae fy mhlentyn wedi gadael addysg ↗

Gall ein cynghorwyr gyrfa helpu eich plentyn gyda'i gamau nesaf ar ôl gadael addysg.

# Sut gallwn ni helpu eich plentyn

## Straeon go iawn

## Talent perfformio

Mae Thomas yn paratoi ar gyfer rôl flaenllaw fel Ewythr Henry yng nghynhyrchiad ei ysgol o The Wizard of Oz. Nid yn unig y mae'n berfformiwr brwd ond mae hefyd yn gobeithio dod yn gyfarwyddwr, gan greu ffilmiau trosedd, cyffro a chomedi yn y dyfodol.

Mae ei frwdfrydedd dros ffilmiau yn disgleirio. Fel mae Thomas yn egluro, "Rwy'n hoffi perfformio oherwydd gallaf fod yn fi fy hun o flaen pobl."

Mae'n ychwanegu, "Rwy'n dwlu ar bob math o ffilmiau, ond rwy'n hoffi Mary Poppins a'r gyfres Only Murders in the Building yn fawr iawn."

## Cymorth Gyrfa Cymru

Roedd Thomas, sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a mân anawsterau dysgu, bob amser yn gwybod ei fod eisiau mynd i'r coleg. Gyda chymorth gan Debbie, y cynghorydd gyrfa yn ei ysgol, llwyddodd i archwilio ei opsiynau a dod o hyd i'r cwrs cywir.

Mae Debbie yn cofio, "Trefnais i swyddog pontio grŵp colegau Castell-nedd Port Talbot ddod i mewn i'r ysgol. Gwnaeth sesiwn grŵp gyda Thomas a'i ddosbarth i siarad mwy am sut beth yw coleg a beth i'w ddisgwyl."

Aeth yn ei blaen, "Roedd Thomas yn wych y diwrnod hwnnw ac roedd wedi ysgrifennu cwestiynau yr oedd y disgyblion tawelach yn y dosbarth eisiau eu gofyn, felly daeth yn llefarydd ar ran pawb."

Yn fuan wedyn, mynychodd Thomas adolygiad cymorth un-i-un, lle helpodd Debbie ef gyda'i gais am gwrs cyfryngau creadigol.

Mae Thomas yn rhannu, "Siaradodd Debbie â mi am ba gwrs fyddai orau i mi a helpodd fi i wneud cais ar-lein."

## Cyngor i eraill

Mae Thomas eisiau annog eraill i estyn allan am gymorth gan eu hathrawon a'u cynghorwyr gyrfa. Dywed, "Peidiwch â bod yn nerfus i siarad â rhywun amdano!"

Mae'n ychwanegu, "Roedd Debbie yn neis iawn, yn llawn hwyl, ac yn braf iawn siarad â hi."



## Stori Thomas

***Mae Thomas yn ddisgybl Blwyddyn 11 y mae ei angerdd dros berfformio wedi ei ysbrydoli i fynd ar drywydd ei uchelgeisiau mewn cyfryngau creadigol a'r celfyddydau perfformio. Gyda chymorth gyrfaoedd ymroddedig, mae Thomas wedi sicrhau lle yn y coleg ac mae bellach ar y trywydd iawn i wireddu ei freuddwyd.***

## Edrych tua'r dyfodol

Gyda'i gais coleg wedi'i gyflwyno a chynnig wedi'i dderbyn, mae Thomas yn paratoi ar gyfer rhai diwrnodau blasu yn y coleg. Mae'n llawn cyffro am y daith o'i flaen a'r cyfleoedd sy'n ei wynebu ym myd y cyfryngau creadigol a'r celfyddydau perfformio.

# Cyflogwyr sy'n cefnogi ysgolion

## Beth Nesaf? Dewiswch Eich Dyfodol


Dewiswch Eich Dyfodol

Rydym wrth ein bodd yn rhannu uchafbwyntiau o'r digwyddiad diweddar, "Beth Nesaf? Dewiswch Eich Dyfodol", a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin ac a groesawodd dros 200 o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Daeth ein digwyddiad, a gefnogwyd gan sefydliadau lleol, â mwy na deg o gyflogwyr o bob cwr o Orllewin Cymru ynghyd i helpu disgyblion i archwilio opsiynau gyrfa a darganfod cyfleoedd yn y dyfodol.







Cafodd dysgwyr ym mlynyddoedd 10–14 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol a gweithgareddau ymarferol, a siarad yn uniongyrchol â chyflogwyr a chynghorwyr Gyrfa Cymru. Cynlluniwyd y profiadau hyn i helpu disgyblion i ystyried beth fyddent yn hoffi ei wneud ar ôl gadael yr ysgol, gan roi cipolwg go iawn iddynt ar fyd gwaith.

Roedd yr adborth gan athrawon a chyflogwyr yn gadarnhaol dros ben. Dywedodd un athro o Ysgol Bro Teifi, "Roedd y sesiynau ymarferol yn wych, a'r stondinau yr un modd. Diolch am y profiadau." Rhannodd y disgyblion eu meddyliau hefyd. Dywedodd un disgybl Blwyddyn 11, "Roeddwn i'n mwynhau cwrdd â'r gwahanol gyflogwyr heddiw," tra ychwanegodd un arall o Flwyddyn 10, "Hoffwn i gael mwy o ddigwyddiadau fel hyn."

Pwysleisiodd Rebecca Thomas, cynghorydd cyswllt busnes Gyrfa Cymru, effaith y digwyddiadau hyn: "Mae digwyddiadau fel hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i feithrin hyder, ennill cymhelliant, a theimlo'n gyffrous am eu dyfodol. Mae cwrdd â chyflogwyr go iawn a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol yn gwneud i gyfleoedd gyrfa deimlo'n fwy cyraeddadwy a real."

Tynnodd Elena Waters-Jenkins, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sylw at y gwerth i gyflogwyr: "Mae digwyddiadau fel hyn mor bwysig oherwydd maen nhw'n rhoi cyfle inni gwrdd â phobl ifanc cyn iddyn nhw wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Rydyn ni eisiau iddyn nhw wybod nad meddygon a nyrsys yn unig yw'r GIG – mae mwy na 350 o swyddi gwahanol ar gael. Mae gallu siarad â ni mewn lleoliad hamddenol yn helpu i chwalu rhwystrau ac yn dangos iddyn nhw faint o gyfleoedd sydd ar gael."

Ychwanegodd Gareth Hicks, rheolwr cangen Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy: "Mae'r digwyddiadau hyn yn wirioneddol bwysig oherwydd maen nhw'n rhoi dealltwriaeth wirioneddol i bobl ifanc o'r hyn sydd ar gael a'r cyfle i ofyn cwestiynau. Mae gweld sut maen nhw'n rhyngweithio wyneb yn wyneb yn wych. Mae'n braf eu helpu i agor eu calon a dechrau sgwrsio."

Mae mwy o ddigwyddiadau Beth Nesaf? Dewiswch Eich Dyfodol wedi'u cynllunio ar gyfer mis Mawrth. Gallwch ddod o hyd i fanylion ein holl ddigwyddiadau sydd ar ddod yma.

## Adnoddau defnyddiol

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r adnodd gwerthfawr hwn yn esbonio sut mae'r system ADY yn gweithredu yng Nghymru, ac yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i blant y nodwyd bod ganddynt ADY. Mae'n egluro'r ddeddfwriaeth a dogfennau eraill sy'n ffurfio'r system ADY.

Gallwch bori'r drwy'r pecynnau cymorth yma



## Trefnwch apwyntiad

**A oeddech chi'n gwybod ein bod ni'n cynorthwyo oedolion hefyd? Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn darparu ystod eang o gymorth, gan gynnwys mynediad i hyfforddiant, uwchsgilio, cyllid, a help gydag ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad.**

**Gallwch drefnu apwyntiad gyda chynghorydd gyrfa yma**

**Mae ein holl ddigwyddiadau Cymru'n Gweithio i'w gweld yma**

**Cymru'n Gweithio**
**Working Wales**

## Cysylltwch â ni:

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy **gyrfacymru.llyw.cymru**
- Anfonwch neges e-bost i **post@gyrfacymru.llyw.cymru**
- Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfaoedd**

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol